



Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7ST  
01492 530420 | swyddfa@bod.alaw.conwy.sch.uk | www.ysgolbod.alaw.org | @Ysgolbod.alaw  
Pennaeth: Mr Dafydd Rhys | Dirprwy Bennaeth: Mrs Elin V Hutchinson / Mrs Sam Kendall

## Presenoldeb

Fel y gwychoch, mae presenoldeb plant yn flaenoriaeth yn Ysgol Bod Alaw.

Y nôd yw gweld pob plentyn yn bresennol yn yr ysgol am o **leiaf 95%** o'r amser – er mwyn sicrhau'r cyfle gorau iddynt gyflawni eu llawn potensial.

Rydym yn cymryd y targed yma o ddifrif ac yn disgwyl eich bod chi, fel rhieni a gwarchodwyr, yn gwneud pob dim o fewn eich gallu i helpu eich plentyn i **gyrraedd yr ysgol bob dydd a hynny erbyn 8.55yb ar yr hwyraf.**

Wrth gwrs, rydym yn cydnabod bod rhesymau dilys dros absenoldeb rhai disgyblion ac mae'r staff bob tro yn barod i gyd-weithio gyda chi os ydych angen cymorth.

Isod gweler wybodaeth ynglyn â'r effaith mae bod yn hwyr neu golli ysgol yn ei gael ar addysg a lles eich plentyn:

Lefel Presenoldeb Disgybl	Effaith ar gyrhaeddiad disgybl
95 – 100%	Siawns orau o gyflawni i'r potensial llawn. Mae'r plentyn yn cymryd mantais llawn o bob cyfle i ddysgu.
90-95%	Boddhaol. Mae'n bosib bydd angen i'r plentyn gymryd amser i ddal i fyny gyda gwaith.
85-90%	Achos i bryderu. Mae'n bosib bydd y plentyn yn tangyflawni.
80-85%	Achos i bryderu. Mae'n bosib bydd angen i'r plentyn dderbyn cymorth ychwanegol i ddal i fyny gyda'r gwaith.
Llai na 80%	Posibilrwydd bod y plentyn yn colli allan ar dderbyn addysg eang a chytbwys.